O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2887 (Cy. 309)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2011

Gwnaed	*28 Tachwedd 2011*
Yn dod i rym	*7 Rhagfyr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470 (Caerdydd i Langurig) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84 (1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984") ac ar ôl ymgynghori â Phrif Gwnstabl De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn—

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Rhagfyr 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2011.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

28 Tachwedd 2011

G R Morgan
G Morgan
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.